

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	2
2.	Trosolwg	2
3.	Themâu Allweddol.....	3
4.	Adolygiadau ac Archwiliadau Arbennig	5
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	9
6.	Llywodraethu ac Atebolrwydd	10
7.	Ymgysylltu.....	11
8.	Gwaith Arolygu.....	13

1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei lunio gan AGIC fel crynodeb o'r gwaith a wnaed gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Bod profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgyssylltiedig ac yn ychwanegu gwerth.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 40 arolygiad o leoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a oedd yn cynnwys:

- Un arolygiad ysbyty
- Pedwar arolygiad o bractisau cyffredinol
- 24 arolygiad o bractisau deintyddol
- Wyth ymweliad Deddf Iechyd Meddwl
- Un arolygiad dilynol o uned iechyd meddwl
- Dau arolygiad anabledde dysgu.

O fewn y sector annibynnol yn ardal Abertawe Bro Morgannwg, mae AGIC wedi cynnal arolygiad o 16 lleoliad, gan gynnwys:

- Un arolygiad o ysbyty aciwt
- Un arolygiad dilynol o uned iechyd meddwl
- Un arolygiad o glinig annibynnol
- Un arolygiad o ysbyty deintyddol
- Tri arolygiad laser
- Wyth ymchwiliad i farwolaeth yn y ddalfa
- Un cyfweiliad â rheolwr cyn cofrestru.

3. Themâu Allweddol

Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGIC waith amrywiol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg trwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

Arolygiadau o Ysbytai'r GIG

- Yn gyffredinol, dywedodd cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn hapus gydag ansawdd y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.
- Gwelsom fod timau staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal i gleifion a oedd yn ddiogel ac effeithiol.
- Roedd angen gwella agweddau ar y ffordd mae meddyginiaethau'n cael eu rheoli a sut mae cofnodion gofal cleifion yn cael eu cwblhau.
- Gwelsom uwch staff wardiau ac ysbytai'n rhoi arweiniad a chyfarwyddyd cadarn i'r timau staff.

Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG

- Dywedodd y cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn hapus gyda'u triniaeth ddeintyddol.
- Gwelsom fod timau staff mewn practisau wedi ymrwmo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.
- Canfu ein harolygiadau fod angen i rai practisau wella er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau dadheintio. Roedd angen gwelliannau hefyd wrth wirio cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng (dadebru) er mwyn cadarnhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.
- Roedd angen i rai practisau wella'r wybodaeth a ddarperir i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn).
- Gwelsom hefyd fod angen i rai deintyddion wella eu gwaith o gadw cofnodion er mwyn dangos eu bod yn cynllunio gofal i hybu diogelwch a llesiant cleifion.

Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

- Gwnaethom weithio gyda dau aelod o'r cyngor iechyd cymuned lleol wrth arolygu practisau cyffredinol. Dywedodd cleifion wrth y cyngor iechyd cymuned eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan eu meddyg teulu a thîm y practis.
- Yr hyn a oedd yn peri'r rhwystredigaeth fwyaf i gleifion oedd eu bod yn cael anhawster siarad â'r practis ar y ffôn i drefnu apwyntiad.
- Roedd angen i rai practisau cyffredinol wella'r wybodaeth roeddent yn ei darparu i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn).

Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd cleifion wrthym hefyd fod y staff yn gymwynasgar.
- Roedd angen amnewid y dodrefn mewn rhai wardiau. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwaith ailaddurno a chynnal a chadw ar rai ardaloedd.
- Roedd angen adolygu darpariaeth a gwaith cynnal a chadw larymau personol i staff er mwyn hybu diogelwch y staff a'r cleifion.

- Er bod cofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gwnaethom nodi y gellid gwneud rhywfaint o welliannau i fodloni canllawiau a nodir yng Nghod Ymarfer Cymru'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

4. Adolygiadau ac Archwiliadau Arbennig

Adolygiadau Marwolaeth yn y Ddalfa

Yn ystod 2015-16, cyfrannodd AGIC at wyth adolygiad marwolaeth yn y ddalfa a oedd yn ymwneud â Charchar EM y Parc neu Garchar EM Abertawe.

Mae canfyddiadau o'r adolygiadau marwolaeth yn y ddalfa, ynghyd ag unrhyw argymhellion, yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf <http://www.ppo.gov.uk/>

Adolygiadau Dynladdiad

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd AGIC ganfyddiadau ymchwiliad¹ i ddynladdiad gan ddefnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl. Gwnaeth yr adroddiad (*Mr N a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl, yn dilyn dynladdiad a gyflawnwyd ym mis Tachwedd 2014*) nifer o argymhellion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Dyma ganfyddiadau'r adolygiad hwn:

- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carchar EM Caerdydd a Charchar EM y Parc ddatblygu proses lle mae'r gwaith o ffurfio achos yn cael ei gyflwyno a'i ddiweddarau'n rheolaidd, wrth i garcharor symud o garchar i garchar a gwasanaethau gofal iechyd meddwl. Mae hyn yn ategu at y broses o gysoni a rhannu gwybodaeth, a'i gwneud ar gael, sy'n helpu clinigwyr i ddeall ac ystyried rhaglenni cynllunio gofal a thriniaeth, ble y bo'n briodol, mewn perthynas ag achosion hirsefydlog a chymhleth.
- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carchar EM Caerdydd a Charchar EM y Parc sicrhau bod gweithdrefnau

¹ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160330argoedhomicidecy.pdf>

ar waith i wirio'r sail resymegol dros feddyginiaeth ar bresgripsiwn, yn arbennig pan fydd unigolyn yn dangos hanes o ddiffyg cydymffurfiaeth.

- Dylai rhanddeiliaid sy'n ymwneud â rhyddhad o'r carchar a chynllunio ôl-ofal:
 - a) Sicrhau bod systemau ar waith i ganiatáu rhannu gwybodaeth gofal iechyd yn well cyn rhyddhad o'r carchar. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ac yn amddiffyn rhag atgwymp posibl mewn unrhyw gyflwr iechyd meddwl; a
 - b) Dylai timau iechyd meddwl mewngymorth mewn carchardai a thimau iechyd meddwl cymunedol weithredu system o apwyntiad dilynol gwirfoddol o fewn un mis i ryddhad unigolyn o garchar. Byddai cynnig apwyntiad dilynol o'r fath yn helpu gyda chysondeb gofal ac yn helpu i roi cefnogaeth i unrhyw broblemau gofal uniongyrchol mewn cyfnod cychwynnol o risg uchel.
- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddatblygu ffiniau atebolrwydd amlwg mewn perthynas â phwy sy'n gyfrifol am geisio ymgysylltu ag unigolion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau'n rheolaidd.
- Dylai gweithdrefnau clir a chyfrinachol fod ar waith i randdeiliaid sydd â staff sy'n rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol o ddigwyddiadau difrifol, neu sy'n gysylltiedig â nhw, er mwyn cynnig gwasanaethau cymorth seicolegol a thrawma priodol ac amserol iddynt.
- Dylai rhanddeiliaid sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i deuluoedd a effeithir gan ddigwyddiadau o'r fath, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddangos y ffordd at gymorth. Dylai cymorth hefyd gynnwys dialog parhaus am brosesau ymchwilio sy'n gosod sail ar gyfer dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pob parti.

Ni wnaeth adolygiad AGIC ganfod unrhyw achosion craidd neu ffactorau arwyddocaol a arweiniodd at y digwyddiad anffodus a thrasig ar 6 Tachwedd 2014. Er i AGIC ganfod meysydd i'w gwella ynglŷn â gofal iechyd a chymorth yn ystod ein hadolygiad, a thynnir sylw at y rhai sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg uchod, nid ydym yn credu bod bodolaeth y materion hyn wedi cyfrannu at y digwyddiad trasig hwn.

Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007

Yn ystod 2015-16, cyhoeddodd AGIC werthusiad o'r adolygiadau dynladdiad² a gynhaliwyd ganddi ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg
- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhau ac ôl-ofal
- Gwasanaethau integredig a chydgyssylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Roedd rhwystrau i weithredu'r argymhellion yn codi pan oedd angen camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad fod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi newid y ffordd y mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hybu dysgu ymysg rhanddeiliaid sy'n rhan uniongyrchol o bob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i'r holl fyrddau iechyd ystyried sut maent yn dysgu yn sgil yr adolygiadau hyn, yn arbennig os nad oeddent wedi bod yn rhan uniongyrchol o ymchwiliad a gynhaliwyd gan AGIC.

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160307homicidereviewreportcy.pdf>

Adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad³ o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut oedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Mae canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom nad oedd y ffocws hwn ar ansawdd wedi bod yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau
- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar, a oedd yn rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r galon. Roedd yr adolygiad hwn yn amlygu diffygion ym mhroses y pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd inni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n ddigon cadarn
- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael ei hadrodd yn brydlon i'r pwyllgor
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wir yn annibynnol, pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru
- Mae canfyddiad allanol bod swyddogaeth a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn â rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

³ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/151221clinicalgovernancereviewcy.pdf>

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu o'r adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd.

5. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau Dilynol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, roeddem yn gofyn i'r bwrdd iechyd neu'r practis ddarparu cynllun gwella ar ein cyfer yn nodi sut roeddent yn mynd i gyflawni'r gwelliannau.

Darparwyd y cynlluniau gan bractisau deintyddol a phractisau cyffredinol o fewn yr amserlen benodedig yn gyffredinol. Roedd cynlluniau gan y bwrdd iechyd weithiau'n cael eu darparu'n hwyr. Arweiniodd hyn at yr angen i AGIC ysgrifennu at y bwrdd iechyd eto cyn derbyn y cynlluniau diwygiedig. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a rhoddwyd digon o sicrwydd inni fod y gwelliannau naill ai wedi'u cyflawni neu'n cael sylw.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn 2015 yn holi am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran y gwelliannau a nodwyd yn ein harolygiadau yn ystod 2014-15. Ni chawsom sicrwydd digonol yn ymateb cyntaf y bwrdd iechyd ei fod wedi rhoi ei gynlluniau gwella ar waith yn llawn. Ni ddarparwyd tystiolaeth gan y bwrdd iechyd chwaith fod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud mewn ymateb i'r materion a nodwyd. Arweiniodd hyn at gais gan AGIC am wybodaeth bellach. Rhoddodd ymateb dilynol, manylach y bwrdd iechyd ddigon o sicrwydd i ni.

Sicrwydd ar Unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflwyno saith o lythyrau sicrwydd ar unwaith. Roedd y rhain yn dilyn arolygiadau o bractisau deintyddol. Gwnaethom ofyn am

sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd i roi sylw i'r gwelliannau angenrheidiol a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth ag agweddau ar Femorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05,⁴ systemau ar gyfer gwirio cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaith papur i ddangos bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Gwnaeth AGIC dderbyn a gwerthuso ymatebion i'r llythyrau sicrwydd ar unwaith, a chafodd sicrwydd bod camau gweithredu addas yn cael eu cymryd i roi sylw i'r gwelliannau angenrheidiol.

6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.⁵ Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'u comisiynu.

Mae gweithgarwch arolygu AGIC yn ystod 2015-16 wedi ystyried trefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd. Gwnaethom ganfod bod trefniadau ar waith gan y bwrdd iechyd i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir ganddo trwy weithgarwch archwilio a hysbysu rheolaidd.

Nodwyd yn arolygiad iechyd meddwl AGIC o Ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Rhagfyr 2014 bod angen gwelliannau. Nodwyd problemau tebyg mewn arolygiad dilynol ym mis Tachwedd 2015. Roedd hyn er gwaethaf sicrwydd gan y bwrdd iechyd bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu sicrwydd cadarn i AGIC ei fod wedi adolygu'r broses ar

⁴ Mae [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁵ Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

gyfer monitro cynnydd ac mae wedi cyflwyno cynlluniau gwella mewn ymateb i weithgarwch arolygu AGIC.

Mae AGIC wedi arsylwi ar gyfarfod o Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y bwrdd iechyd yn ystod 2015-16. Mae AGIC hefyd wedi cael cofnodion cyfarfodydd a phapurau a gyflwynwyd i'r pwyllgor. Gwelsom fod gwybodaeth am faterion ansawdd a diogelwch yn cael eu cyflwyno ac yn destun craffu gan aelodau'r pwyllgor fel rhan o drefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad o'u safle o ran llywodraethu ac atebolrwydd, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu lefel aeddfedrwydd ar raddfa o 1-5. Mae'r hunanasesiad yn ystyried tair thema:

- Pennu Cyfeiriad
- Galluogi Cyflenwi
- Cyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth.

Cadarnhaodd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd ar gyfer 2014-15 fod gan y bwrdd iechyd gynlluniau a phrosesau ar waith a oedd wedi'u datblygu'n dda a'i fod yn gallu dangos gwelliant cynaliadwy (lefel aeddfedrwydd – 4) ar gyfer y thema Pennu Cyfeiriad. Ar gyfer y themâu Galluogi Cyflenwi a Chyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth, cadarnhaodd yr hunanasesiad fod y bwrdd iechyd yn datblygu cynlluniau a phrosesau ac yn gallu dangos cynnydd mewn rhai o'i feysydd allweddol i'w gwella (lefel aeddfedrwydd – 3).

7. Ymgysylltu

Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r bwrdd iechyd wedi bod trwy gyfuniad o ohebiaeth ysgrifenedig, ar y ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ôl yr angen. Cyfarfu AGIC â Chyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf y bwrdd iechyd yn bennaf, er mwyn sicrhau y gellir trafod unrhyw bryderon sydd gan AGIC a darparu sicrwydd.

Mae staff ar bob lefel yn y bwrdd iechyd wedi ymgysylltu'n llwyr â'r timau arolygu sy'n ymweld â gwasanaethau ysbytai a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Yn yr un modd, mae cynrychiolwyr uwch y bwrdd iechyd wedi sicrhau eu bod ar gael i fynychu sesiynau adborth. Mae'r rhain yn cael eu cynnal ar ôl pob

arolygiad gan AGIC ac maent yn rhoi cyfle i'r tîm arolygu rannu adborth ar eu canfyddiadau. Mae timau arolygu wedi canfod bod cynrychiolwyr y bwrdd iechyd yn barod i dderbyn eu hadborth ac yn fodlon cymryd camau i wella ble y bo angen.

8. Gwaith Arolygu

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ysbyty

1. Ysbytai Singleton a Threforys	9 Medi 2015
--	-------------

Ymarfer Cyffredinol

2. Meddygfa Oaktree, Rhodfa Whitethorn, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 2PQ	13 Hydref 2015
3. Canolfan Gofal Sylfaenol Clydach, 80 Y Stryd Fawr, Clydach, Abertawe, SA6 5LN	5 Ionawr 2016
4. Riversdale House, Heol Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3NL	22 Chwefror 2016
5. Meddygfa New Cross, 48 Heol Sway, Treforys, Abertawe, SA6 6HR	15 Mawrth 2016

Practis Deintyddol

6. Practis Deintyddol Llynfi, 14 Stryd Talbot, Maesteg, CF34 9BU	5 Mai 2015
7. Practis Deintyddol Cwmtawe, 36 Y Stryd Fawr, Clydach, Abertawe, SA6 5LQ	13 Mai 2015
8. Practis Deintyddol Tŷ Gwyn, 14 Heol Sway, Treforys, Abertawe, SA6 6HT	18 Mai 2015
9. Practis Deintyddol Pentre-poeth, 9 Heol Pentre-poeth, Treforys, Abertawe, SA6 6AA	19 Mai 2015
10. Practis Deintyddol Glyn-nedd, 25 Stryd Fawr, Glyn-nedd, SA11 5BS	18 Mehefin 2015
11. Clinig Deintyddol Stryd Russell, 27 Stryd Russell, Abertawe, SA1 4HR	29 Mehefin 2015
12. Woods Dental, 65 Heol Walter, Abertawe, SA1 4PT	7 Gorffennaf 2015
13. Practis Deintyddol Stryd Mansel, 77 Stryd Mansel, Abertawe, SA1 5TW	14 Gorffennaf 2015
14. Clinig Deintyddol Whitehouse, 14 Heol Llangrallo, Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5NG	28 Medi 2015
15. Practis Deintyddol Heol Llangyfelach, 956 Heol Llangyfelach, Abertawe, SA5 7HR	29 Medi 2015
16. uSmile, 21 Hillsboro Place, Porthcawl, CF36 3BH	16 Tachwedd 2015
17. Q Dental Care Cyfyngedig, 49 Heol Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3NN	17 Tachwedd 2015
18. Practis Deintyddol Village, 61 Heol Newydd, Sgiwen, Castell-nedd, SA10 6HA	11 Ionawr 2016
19. Practis Deintyddol Court Road, Practis Deintyddol ac A ac E S Turpy, 4 Court Road, Pen-y-bont ar Ogwr	19 Ionawr 2016

20. Canolfan Ddeintyddol Sant Teilo, 168 Stryd Sant Teilo, Pontarddulais, Abertawe, SA4 8LH	11 Chwefror 2016
21. IDH Dental, 54-58 Stryd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3PB	16 Chwefror 2016
22. 102 Stryd Woodfield, Treforys, Abertawe, SA6 8AS	18 Chwefror 2016
23. 36 Gerddi Victoria, Castell-nedd, SA11 3BH	25 Chwefror 2016
24. JD Isaac, 68 Commercial Road, Tai-bach, Port Talbot, SA13 1LP	29 Chwefror 2016
25. Practis Deintyddol Pen-clawdd, 2 Compton Houses, West End, Pen-clawdd, Abertawe, SA4 3YU	29 Chwefror 2016
26. Practis Deintyddol Gardenside, 23 Gerddi Victoria, Castell-nedd, SA11 3AY	1 Mawrth 2016
27. Practis Deintyddol, 26 Heol Dillwyn, Sgeti, Abertawe, SA2 9AE	3 Mawrth 2016
28. Practis Deintyddol Barry Jones, 10 Whitethorn Drive, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 2PQ	7 Mawrth 2016
29. Canolfan Adnoddau Port Talbot, Moor Road, Ystad Ddiwydiannol Baglan, Port Talbot, SA12 7BJ	9 Mawrth 2016

Deddf Iechyd Meddwl

30. Uned Asesu a Thriniaeth Llwyneryr	15 Ebrill 2015
31. Hafod y Wennol (Hensol)	28 Ebrill 2015
32. Rowan House	13 Gorffennaf 2015
33. Cefn yr Afon, Pen-y-bont ar Ogwr	18 Awst 2015
34. Ysbyty Tywysoges Cymru (pedair ward)	16 Tachwedd 2015

Arolygiad Dilynol Uned Iechyd Meddwl

38. Tywysoges Cymru	16 Tachwedd 2015
-------------------------------------	------------------

Anabledd Dysgu

39. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg/Pen-y-bont ar Ogwr	9 Rhagfyr 2015
40. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg/Merthyr	25 Ionawr 2016

Gofal Iechyd Annibynnol

Ysbyty Aciwt

1. Sancta Maria	29 Medi 2015
---------------------------------	--------------

Arolygiad Dilynol Uned Iechyd Meddwl

2. Rushcliffe	23 Mehefin 2015
-------------------------------	-----------------

Clinig Annibynnol

3. National Slimming and Cosmetic Clinic – 391 Kingsway, Abertawe, SA1 5LQ	14 Hydref 2015
--	----------------

Ysbyty Deintyddol

4. Clinig Parkway	20 Hydref 2015
-----------------------------------	----------------

Laser

5. Swansea Laser Clinic	3 Medi 2015
6. Clinig Cosmetig Cutis	27 Hydref 2015
7. Sun Lounge, 52 Stryd Woodfield, Treforys, Abertawe	16 Tachwedd 2015

Cyfweliad â Rheolwr Cyn Cofrestru

8. Ysbyty Annibynnol Rushcliffe	15 Ebrill 2015
---------------------------------	----------------

Ymchwiliad – Marwolaethau yn y Ddalfa

9. Carchar EM y Parc (AO)	1 Mai 2015
10. Carchar EM y Parc (DG)	2 Mehefin 2015
11. Carchar EM Abertawe (PP)	21 Gorffennaf 2015
12. Carchar EM y Parc (LP)	15 Medi 2015
13. Carchar EM y Parc (JC)	6 Hydref 2015
14. Carchar EM y Parc (MT)	22 Ionawr 2016
15. Carchar EM y Parc (JG)	15 Chwefror 2016
16. Carchar EM y Parc (AN)	22 Chwefror 2016